| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Mai 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Awdur yr adroddiad** | Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Teitl** | Cynlluniau Hirdymor ar gyfer Trefi: Y Rhyl |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y gronfa o tua £20 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Y Rhyl, sy'n rhan o fenter Cynlluniau Hirdymor ar gyfer Trefi Llywodraeth y DU[1].

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) gymryd camau penodol erbyn 1 Mehefin 2024 (megis penodi Cadeirydd annibynnol i Fwrdd Tref newydd), ac rydym yn ceisio cefnogaeth y Cabinet ar gyfer ein hymateb arfaethedig i'r camau gofynnol.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/long-term-plan-for-towns-guidance-for-local-authorities-and-town-boards/long-term-plan-for-towns-guidance-for-local-authorities-and-town-boards

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod [i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a'r Arweinydd/Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd] ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth y DU er mwyn bodloni gofynion y gronfa erbyn y dyddiad cau, sef 1 Mehefin.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Medi 2023, lansiodd Llywodraeth y DU y fenter Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi fel rhan o'i rhaglen ffyniant bro. Ar 6 Mawrth 2024, cyhoeddwyd y byddai'r Rhyl yn derbyn tua £20 miliwn fel un o'r 2il garfan o drefi i'w cynnwys yn y fenter. Bydd y cyllid yn cael ei ddyfarnu i CSDd, a ni fydd yn gyfrifol am y cyllid ac am gyflwyno'r cynllun.

4.2. Mae gofyn i CSDd wahodd unigolyn addas i fod yn Gadeirydd Bwrdd Tref newydd Y Rhyl. Dylai hwn fod yn berson uchel ei barch sy'n amlwg yn angerddol dros Y Rhyl ac mewn sefyllfa dda i ymgynnull partneriaid. Dylai Bwrdd y Dref gael ei gadeirio gan berson busnes neu arweinydd cymunedol lleol i sicrhau bod y Bwrdd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r dref yn llawn, ac ni ddylai'r Cadeirydd fod yn gynrychiolydd etholedig.

4.3. O ystyried bod rhaid penodi Cadeirydd erbyn 1 Mehefin 2024, roedd angen i'r broses o ddethol Cadeirydd fod yn eithaf ysgafn. Ceisiwyd enwebiadau gan Grŵp Cyfeirio'r Rhyl, ac mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a'r Arweinydd/Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd wedi cael trafodaethau gyda'r unigolion a enwebwyd ar gyfer y swydd. Dyluniwyd y trafodaethau hyn i archwilio nifer o feysydd, megis eu diddordeb, eu gallu a'u haddasrwydd ar gyfer y swydd. Nid oedd y broses o benodi Cadeirydd wedi'i chwblhau adeg cyflwyno'r papur hwn, felly dyma pam ein bod yn ceisio awdurdod dirprwyedig i gadarnhau'r holl drefniadau angenrheidiol erbyn 1 Mehefin (gweler argymhelliad 3.1).

4.4. Ar ôl ei benodi, bydd CSDd yn cydweithio â'r Cadeirydd i gadarnhau aelodaeth Bwrdd y Dref, gan ddefnyddio'r amodau a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU. Bydd angen i'r Bwrdd ymgynnull arweinwyr cymunedol, cyflogwyr, y Cyngor a'r

AS lleol i oruchwylio a chyflawni'r Weledigaeth Hirdymor a'r cynlluniau cyflawni 3-blynedd.

4.5. Mae yna ddau derfyn amser allweddol i CSDd (a'r Bwrdd) gyflawni'r gofynion penodol a nodwyd gan Lywodraeth y DU. Yn gyntaf, rhaid i CSDd gyflwyno bywgraffiad y Cadeirydd, Strwythur y Bwrdd, y Cylch Gorchwyl, y Polisi Gwrthdaro Buddiannau a ffurflen Ffiniau'r Dref **erbyn 1 Mehefin 2024**. Rydym yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo'r dasg hon i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a'r Arweinydd/Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd (gweler argymhelliad 3.1). Yna, erbyn **1 Tachwedd 2024**, rhaid i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Cytuno ar Lywodraethiad
- Cytuno ar gynllun ymgysylltu
- Cynnal adolygiad data
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Datblygu'r Weledigaeth 10-mlynedd
- Datblygu'r cynllun cyflawni ar gyfer y 3 blynedd gyntaf.

4.6. Argymhellir Bwrdd o 12 i 15 Aelod, ac mae'r canllawiau'n awgrymu y dylai gynnwys y canlynol (mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Atodiad A):

- 2 Aelod Etholedig y Cyngor Sir
- Yr AS
- Uwch Gynrychiolydd yr Heddlu
- Cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau cymunedol, allai gynnwys y Cyngor Tref, yr ysgol/coleg, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, busnesau ac ati.

4.7. Rhaid i Weledigaeth Hirdymor (10 mlynedd) y Dref fod yn seiliedig ar flaenoriaethau'r bobl leol. Rhaid iddo nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r dref ar gyfer buddsoddi ac adfywio, wedi'u cydweddu â'r tair thema ganlynol: 1) diogelwch personol ac eiddo; 2) y stryd fawr, treftadaeth ac adfywio; a 3) cludiant a chysylltedd. Rhaid cytuno ar hyn, a'r Cynllun Cyflawni 3-blynedd, a'u cyflwyno erbyn 1 Tachwedd 2024.

4.8. Bydd Y Rhyl yn derbyn cronfa 10-mlynedd ar ffurf gwaddol o tua £20 miliwn. Y bwriad yw y bydd hyn yn cynnig sicrwydd hirdymor i gyflawni prosiectau dros nifer o flynyddoedd, a'r hyblygrwydd i fuddsoddi mewn ymyriadau sy'n seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol sy'n datblygu. Er y bydd CSDd/y Bwrdd yn derbyn swm blynyddol (tua £2 filiwn y flwyddyn), nid oes rhaid gwario'r arian i gyd o fewn y flwyddyn honno; gellir ei ddwyn ymlaen, o leiaf o fewn cyfnod pob cynllun cyflawni 3-blynedd.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd Cynllun Hirdymor y Dref yn cefnogi themâu cynllun corfforaethol y Cyngor, ond yn benodol, Bwrdd Sir Ddinbych Ffyniannus.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd angen i swyddogion o amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor gefnogi Bwrdd y Dref. Mae cyllid ar gael i helpu gyda'r tasgau y mae'n rhaid eu cwblhau erbyn 1 Tachwedd 2024, er enghraifft, bydd £200,000 ar gael ar gyfer gwaith ymgysylltu cyhoeddus ac i gefnogi datblygiad y weledigaeth 10-mlynedd a'r cynllun cyflawni 3-blynedd.

# 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

# 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. O ystyried y terfynau amser, ni chafwyd llawer o gyfle i ymgynghori hyd yma. Fodd bynnag, anfonwyd y wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl dros e-bost, ac roedd yn eitem ar raglen Grŵp Cyfeirio'r Rhyl ar 25 Ebrill 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn nodi'r prif delerau ac amodau ar gyfer yr £20 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd ar gyfer Y Rhyl fel rhan o fenter Cynlluniau Hirdymor ar gyfer Trefi Llywodraeth y DU.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes rhywbeth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y brif risg i gychwyn yw methu â bodloni'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth y DU, a fyddai'n arwain at beidio â chael y cyllid.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. A24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - pŵer cymhwysedd cyffredinol.

11.2. Tabl 4, Atodiad 1 Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor.